## COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** 21 Mai 2002
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Craig Stephenson, Uned Fusnes y Cynulliad
Alun Jenkins, Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr / YP y Dirprwy Lywydd

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Marion Stapelton am ei habsenoldeb. Croesawodd y Dirprwy Lywydd Craig Stephenson a oedd yn dirprwyo ar ei rhan.

### 2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

**(i) BC147-02 (Terfynol) Dydd Mawrth 7 Mai 2002**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**(ii) BC160-02 (Drafft) Dydd Mawrth 14 Mai 2002**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### 3. Materion yn codi (BC160-02 Dydd Mawrth 14 Mai 2002)

3.1 **Paragraff 4.1** Adroddodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad i'r Pwyllgor ar amserlen The Horticultural Development Council (Amendment) Order 2002 (BC159-02). Dywedodd bod DEFRA wedi anfon y Gorchymyn drafft erbyn 4pm, ddydd Iau 9 Mai. Cafodd ei wirio a'i glirio gan gyfreithwyr y Llywodraeth ar 10 Mai ac yna'i gyflwyno ar unwaith i Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes i'w gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 14 Mai. Dywedodd Trefnydd y Cynulliad ei fod wedi dweud wrth DEFRA y dylid rhoi Gorchmynion drafft i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn llawer cynt yn y dyfodol. Nododd y Dirprwy Lywydd y dylid rhoi o leiaf 2 benwythnos i Aelodau ystyried y gorchmynion drafft.

3.2 **Paragraff 7.6** Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Clerc roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor am y trefniadau teithio i Fangor ar gyfer ymweliad y Frenhines. Dywedodd y Clerc y byddai 16 o Aelodau'r Cynulliad yn bresennol yn ymweliad y Frenhines. Ond mai dim ond pedwar fyddai'n dod yn ôl i Gaerdydd. Cytunodd y Pwyllgor na allai gyfiawnhau talu i gyn lleied o Aelodau deithio mewn awyren ac y dylai'r Aelodau dalu am y gost o deithio i Fangor ac yn ôl eu hunain. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y gallai Swyddfa'r Llywydd helpu'r Aelodau â'u trefniadau teithio os bydd angen.

3.3 **Paragraff 5.2** Holodd y Dirprwy Lywydd am yr holiadur ynglyn â'r newidiadau i amseroedd y Cyfarfod Llawn. Dywedodd Andrew George bod yr holiadur wedi cael ei ddosbarthu ymysg Aelodau'r Cynulliad y bore hwnnw. Byddai'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

3.4 **Paragraff 7.7** Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi gofyn i Wayne Cowley (Swyddfa Ffioedd) baratoi papur ar lwfans costau swyddfa a phapur ar yswiriant i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod gan y Llywodraeth yswiriant indemniad ar gyfer ei staff. Ond roedd hyn yn dibynnu ar ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau diogelwch.
**Camau i'w cymryd:** Wayne Cowley i baratoi papurau ar gyfer Pwyllgor y Ty.

## 4. Is-ddeddfwriaeth
### (a) Gorchmynion i'w hystyried

- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC162-02)
  *Y Weithdrefn a Argymhellir: Safonol*
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC163-02)
  *Y Weithdrefn a Argymhellir: Safonol*
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC164-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Safonol*
- The Home Grown Cereals Authority (Rate of Levy) Order 2002 - (BC165-02) *Rheol Sefydlog 23, Adran 3*
- The Plant Protection Products (Amendment) (No.2) Regulations 2002 (BC166-02) *Rheol Sefydlog 23, Adran 3*

4.1 Rhoddodd y Pwyllgor Busnes ystyriaeth i bapurau BC162-02 i BC164-02, a oedd yn rhoi cyngor ar sut i drin y gorchmynion hyn, ac yn cytuno ar y gweithdrefnau a argymhellir.
**Penderfynodd y Llywydd wedyn nad oedd rhaid cyfeirio'r Gorchmynion hyn i bwyllgor pwnc.**

4.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod BC165-02 a BC166-02 yn hwyr yn cael eu rhoi ar y Rhyngrwyd. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod y Gorchmynion ar y Rhyngrwyd o fewn dwy awr i'w derbyn. Dywedodd y byddai'n trafod bod gorchmynion drafft yn hwyr yn cyrraedd y Cynulliad gyda Robin Cook, Arweinydd y Ty yn San Steffan. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r gorchmynion fynd i'r Cyfarfod Llawn.

**(b) Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol**

BC167-02

4.4 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad i Aelodau ynghylch defnyddio'r Weithdrefn Weithredol ar gyfer diwygio'r Gorchymyn Rheoli Afiechydon (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002; Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 a diddymu ac ailwneud Rheoliadau Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 .

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

BC168-02

5.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r papur ar y Gweithdrefnau ar gyfer galw'r Cynulliad yn ôl. Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod y weithdrefn yn hyblyg am y byddai'r trefniadau'n amrywio yn ôl pwysigrwydd galw'r Cynulliad yn ôl. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y trefniadau hyn. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Rheolwyr Busnes ofyn i'w grwpiau wneud yn siwr eu bod yn diweddaru'r holl fanylion cyswllt sydd gan y Swyddfa Ffioedd ar eu cyfer.

BC169-02
5.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y papur, a oedd yn cynnig mân ddiwygiadau i unioni'r anghysondeb rhwng testun Saesneg a thestun Cymraeg y Protocol ar Ymddygiad yn y Siambr.

BC170-02
5.3 Cytunodd y Pwyllgor ar y Periodic Timetable Statement ar gyfer y cyfnod rhwng dydd Llun 10 Mehefin a dydd Gwener 11 Hydref 2002.

## 6. Y Pwyllgorau

## 7. Busnes arfaethedig

(i) Busnes yr Wythnos Hon

7.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bapur BC171-02 a oedd yn nodi busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnos yn fanwl.

7.2 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad bod y cynnig ar Reoliadau Cig (Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol) (Cymru) 2002 a drefnwyd ar gyfer dydd Iau 23 Mai wedi cael ei ohirio tan 30 Mai. Ni chafodd unrhyw newidiadau eraill eu cynnig.

(ii) Datganiad Busnes Drafft

7.3 Gwnaeth y Pwyllgor nodyn o ddatganiad arfaethedig y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad ar drefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n dechrau dydd Mawrth 28 Mai, dydd Mawrth 11 Mehefin a dydd Mawrth 18 Mehefin.

7.4 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad bod dau ddiwygiad i'r Datganiad Busnes Drafft. Roedd Diwygio'r Rheolau Sefydlog yn dilyn Adroddiad yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad - Haen 1, a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth 28 Mai, wedi'i ohirio tan 11 Mehefin a byddai'r cynnig i godi'r lwfans diogelwch a ddyrennir yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 11 Mehefin.

7.5 Dywedodd Jocelyn Davies fod Janet Ryder, yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Ebrill, wedi gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad drefnu dadl ar y Papur Gwyn ar ddiwygio'r heddlu. Gofynnodd a oedd wedi gwneud penderfyniad. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad ei fod wedi ymgynghori â'r Gweinidog dros Gyllid a benderfynodd nad mater i'w ddatganoli oedd hwn ac na fyddai'n gwneud datganiad.

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn**

**9. Diwygio Rheolau Sefydlog**

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad ar y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n deillio o adroddiad yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad. Nodwyd y byddai cynnig i roi'r newidiadau hyn ar waith yn cael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Mehefin.

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

**11. Unrhyw fusnes arall**

11.1 Dywedodd Jonathan Morgan fod angen eglurhad o'r weithdrefn ar gyfer datgan buddiant yn y Cyfarfod Llawn. Dywedodd y Clerc fod yn rhaid i Aelodau, yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ddatgan unrhyw fuddiant cyn cymryd rhan yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn.
Roedd wrthi'n ymgynghori â'r Cwnsler Cyffredinol ar sut dylid dehongli'r gofyn hwn yn ymarferol a byddai'n adrodd i'r Pwyllgor cyn gynted â phosib.
**Camau i'w cymryd: Y Clerc i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Busnes.**

11.2 Cyfeiriodd y Dirprwy Lywydd at y ddadl ar y Strategaeth Pobl Hyn a gynhaliwyd ar 16 Mai.  Dywedodd bod y Cadeirydd wedi gwneud ei orau i gael cydbwysedd o ran siaradwyr yn ystod y dadleuon.  Ond roedd hyn yn anodd pan mai dim ond nifer fach o siaradwyr oedd gan un blaid neu fwy. Pan fo gan un blaid lai o siaradwyr na phlaid arall, gofynnodd Jonathan Morgan a fyddai'n bosibl rhoi mwy o amser i'r siaradwyr hynny er mwyn cadw cydbwysedd yn ystod y ddadl.  Roedd yn anodd i un siaradwr basio gwelliant, delio ag ymyriadau a bod yn llefarydd dros eu Plaid, a hynny o fewn pum munud. Cytunodd Kirsty Williams a dywedodd y byddai mwy o hyblygrwydd yn ddefnyddiol i Gadeiryddion y pwyllgorau hefyd.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**